**Cofnodion Bwrdd Rheilffyrdd TrC**

**12/09/2025**

0900 – 1300

Lleoliad: Llys Cadwyn

**Yn bresennol**
James Price (Cadeirydd), Heather Clash, Alexia Course, Marie Daly, Jan Chaudry, Julian Edwards, Peter Strachan, Seamus Scallon

**Hefyd yn bresennol**
Sam Hadley, Nick Millington, Stephen Morgan

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**
Gan fod cworwm, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan bod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datgan Buddiant**
Cadarnhaodd yr aelodau fod eu datganiadau o fuddiannau a gyhoeddwyd yn dal yn gyfredol ac nad oedd unrhyw fuddiannau ychwanegol i'w datgan, yn ymwneud yn benodol ag eitemau ar yr agenda.

**2. Sylw i ddiogelwch**.
Mae depo Treganna yn dal i gael trafferthion gyda thagfeydd, ond gwelwyd gwelliannau yn ddiweddar ar ôl defnyddio mwy o staff nos a drwy gydlynu â'r cynllun trenau. Trafododd y Bwrdd fod trenau gorlawn yn achosi oedi mewn gwasanaethau, ond cyfeiriwyd at fesurau effeithlonrwydd a'r ffaith bod defnyddio depo'r Barri yn helpu i leddfu'r tagfeydd. Erys y cyfyngiadau ar y seilwaith, a sefydlwyd gweithgor i roi sylw i'r tagfeydd gweithredol. Mae polisi diwygiedig ar waith ar gyfer datblygu siyntwyr, ac mae dyfeisiau neilltuo o bell yn cael eu gosod i wella mynediad. Trafodwyd opsiynau ehangu strategol. Anogodd y Bwrdd ragor o arloesi i reoli'r galw nes bydd y newidiadau yn y fflyd yn lleddfu'r pwysau.

**3. Sylw i gwsmeriaid**
Adolygodd y Bwrdd ddigwyddiad diweddar yng Nghyfnod 5, gan nodi bod rheolwr y trên wedi gweithredu gyda bwriadau da drwy agor drysau ar gyfer awyru. Fodd bynnag, arweiniodd hyn at wagio'r ardal yn ddi-reolaeth, gan godi pryderon ynghylch cyfathrebu a gwneud penderfyniadau o dan bwysau. Dywedwyd wrth y Bwrdd fod y camau gweithredu sydd ar

y gweill yn cynnwys cynyddu cadernid y fflyd, archwilio rhwystrau ffisegol a gardiau rheilffordd i atal pobl rhag gadael cyn pryd, yn ogystal â meincnodi'r arferion gorau gan wasanaethau InterCity eraill. Trafododd y Bwrdd ddefnyddio rampiau trosglwyddo ar gyfer gwagio drwy'r ochr, hyfforddiant diogelwch ar y cledrau i staff arlwyo i helpu mewn sefyllfaoedd tebyg a chyfathrebu'n fwy effeithiol ar y trenau.

**4. Cofnodion a Chamau Gweithredu**
Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion 15 Awst 2025, yn amodol ar y gwelliannau.

**5. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau**

Cafodd y Bwrdd drosolwg o adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau a thrafodwyd y canlynol:

- Mae ODSG yn canolbwyntio ar fetrigau cardiau sgorio, effaith cwsmeriaid a chydweithwyr a diogelu refeniw, ac mae dadansoddiadau manwl ar funudau o oedi yn cael eu datblygu
- Mae perfformiad Llinellau Craidd y Cymoedd yn gadarn ar dros 92 o ran yr Amser mae Teithwyr yn ei Golli (PTL), sy'n debyg i wasanaethau metro eraill
- Cynnal a chadw lifftiau, gan nodi bod lifft Cwmbrân yn ailagor ddydd Llun. Codwyd pryderon ehangach ynghylch dibynadwyedd, perfformiad contractwyr, a'r ffaith bod costau'n rhwystr ar draws 13 lifft. [Gweithredu – NM i adolygu'r problemau a threfnu darparwyr cynnal a chadw]
- Bodlonrwydd Cwsmeriaid a dangosyddion perfformiad allweddol, dywedwyd bod angen dadansoddi'n ddyfnach y tu hwnt i'r data crai [MD i weithredu]; mae'r naratifau dangosyddion perfformiad allweddol bellach yn gliriach ac wedi'u dadelfennu a thrafodwyd y cynigion a wnaed i gyflwyno offer data gweledol i fonitro tueddiadau.
- Y wybodaeth ddiweddaraf am redeg unedau Class 398 heb nam a'r gwaith addasu y gofynnwyd amdano ar gyfer y Bwrdd Gweithredol [MD i weithredu]
- Nodwyd twf Llinellau Craidd y Cymoedd a'r diffyg ymwybyddiaeth yn y gymuned o'r gwasanaethau sydd ar gael [Gweithredu - LB i hyrwyddo'r newyddion bod maes parcio Ffynnon Taf yn ailagor er mwyn gwella gwelededd ac annog y cyhoedd i ddefnyddio gwasanaethau'r Metro]
- [redacted]
- Mae'r gwaith yn parhau gyda'r timau cyfreithiol ar ddrafftio gofynion y manylebau ar gyfer yr ymarferiad i gaffael fflyd, gan gynnwys anghenion y depos. [redacted]

- [redacted]
- [redacted]

**5.1 Adroddiad Strategol ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (gan gynnwys gwydnwch seilwaith)**

Nododd y Bwrdd yr adroddiad strategol ar ddangosyddion perfformiad allweddol

**7. Diweddariad Masnachol**

Ymunodd Chris Williams â'r cyfarfod

Adolygodd y Bwrdd ganlyniadau cyfnod pump, gan nodi'r canlyniadau cadarn a gyflawnwyd. [redacted] Mae'r prif risgiau i refeniw yn cynnwys tarfu peirianyddol a chystadleuaeth gan ddulliau teithio amgen, gan gynnwys cerbydau trydan a bysiau. Trafododd y Bwrdd wella cywirdeb data a dilysu'r data ar effaith ymgyrchoedd hyrwyddo. Gofynnodd y Bwrdd i AC/CW baratoi gwybodaeth am dwyll i'r Bwrdd ei hadolygu yn y dyfodol.

**8. Adolygiad Ariannol**

*Ymunodd Stephanie Raymond â'r cyfarfod*

Adolygodd y Bwrdd y gwariant cyfalaf a refeniw, [redacted]

**8.1 Cerbydau**

Trafododd y Bwrdd ofynion o ran cerbydau yng nghanol pwysau parhaus ar gostau ac anghenion newidiol y gwasanaethau. Dywedodd y Bwrdd fod angen deall y costau i'r dyfodol a sicrhau cyllid, [redacted]. Mae rhestr o ba gerbydau y gwelwyd y bydd eu hangen ar ôl yr un gyllideb toriadau yn cael ei chwblhau, gydag achosion busnes yn annhebygol o fod yn barod mewn pryd ar gyfer yr un gyllideb toriadau nesaf. Trafododd y Bwrdd yr angen i adnewyddu trenau Class 158 gyda threnau Class 197 sydd wedi symud i'r system ETCS. Trafododd y Bwrdd gadw 17 o unedau Class 153 tan 2027, [redacted]
Gofynnodd y Bwrdd am ddatganiad fflyd-wrth-fflyd gyda dadansoddiad cost a budd i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau [AC/HC i weithredu]

**9. Paratoi at yr Hydref**

*Ymunodd Colin Lea â'r cyfarfod*

Adolygodd y Bwrdd ddrafft terfynol y cynllun paratoi at yr hydref, gan nodi bod y cynllun yn cydgrynhoi'r gwersi a ddysgwyd o flynyddoedd blaenorol, gan gynnwys Salisbury a Thalerddig, ac mae'n cynnwys sefydlu Desg Reoli i oruchwylio'r perfformiad dyddiol a monitro gweithredoedd drwy'r Uwch Dîm Arwain Gweithredol. Mae'r paratoadau technegol yn bwrw ymlaen, gyda rhaglenni trin yn mynd rhagddynt. Mae ardaloedd sy'n dueddol o ddioddef llifogydd yn dod o dan strategaeth ddiweddaraf yr RCN, a threialon monitro lefelau adlyniad isel ar drenau Class 153. Mae parodrwydd y fflyd yn cael sylw drwy ddefnyddio mwy ar durniau olwynion a briffio gyrwyr, tra bo'r systemau rheoli cymhwysedd yn cael eu hadolygu. Trafodwyd sut i ohebu a choffau i nodi blwyddyn ers Talerddig, gyda phwyslais ar yr angen i ddirwyn yr holl gamau gweithredu cysylltiedig i ben.

[redacted]

**10. Papurau i'w Nodi**

Nododd y Bwrdd y Diweddariad Marchnata

**11. Unrhyw Fater Arall**

Dywedwyd wrth y Bwrdd y bydd angen cymeradwyaeth y Bwrdd i becyn masnachol sy'n cynnwys cytundebau cyllido ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, ac y caiff ei gyflwyno pan fydd wedi'i gwblhau.

[redacted].

**Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.**

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES